

CYLCHLYTHYR ARCHIFAU GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

RHIFYN 5 / GAEAF 2022



Archif Deuluol Fach, Yn Gyfoeth o Fanylion Hanesyddol

#AEAArchwilioEichArchif

Liz Newman, Archifydd

Thema ymgyrch Archwilio eich Archifau eleni yw 'Eich Archif', ac mae'n canolbwyntio ar y mathau o bapurau a ffotograffau teuluol sydd gennych o bosibl yn eich cartref yn ymwneud â gorffennol eich teulu. Mae'r erthygl hon yn cynnwys archif deuluol fach a gatalogiwyd yn ddiweddar yn AGDdC, Penarlâg. Efallai y bydd yn eich ysbrydoli i roi eich papurau teuluol chi yn eich Archifau lleol un diwrnod fel atgof parhaus o hanes eich teulu?

Yn ddiweddar cefais y pleser o gatalogio casgliad bach o bapurau teuluol yn perthyn i deuluoedd Roberts a Davies a oedd yn byw yn Wreccsam a Chei Connah yn y 19eg ganrif a'r 20fed ganrif. Er mai dim ond casgliad bychan o 58 o eitemau yw hwn, mae'r papurau a'r ffotograffau yn rhoi ciplun manwl dros ben i ni o fywydau dau deulu cydgysylltiedig.

Mae'r papurau cynharaf yn gysylltiedig â theulu Roberts o Wreccsam - Frederick Roberts, Asiant i Gwmni Yswiriant; ei wraig Margaret Frances Roberts; a'u tri o blant: John Frederick (a anwyd yn 1892); Margaret Mary (a anwyd yn 1895); a Thomas Gwilym (a anwyd yn 1896).



Ar ddechrau'r 20fed ganrif roedd y teulu yn byw yn 50 Ffordd Bradley, Wreccsam, ac roedd y plant yn mynychu Ysgol y Cyngor Ffordd Fictoria. Ymddengys bod y ddau fachgen yn ysgolorion da gan fod nifer o'u tystysgrifau teilyngdod yn rhan o'r casgliad. Roedd Thomas Gwilym Roberts hefyd yn artist talentog, ac enillodd wobr yng nghystadleuaeth Ysgol Sul Eglwys Rydd Wreccsam am wneud llun o lew. Yn nes ymlaen, gwelwn enghraifft o'i allu arbennig i dynnu lluniau technegol yn ei lyfrau ar gyfer Dosbarth Cyflenwad Nwy.

Tystysgrif Deilyngdod ar gyfer Thomas Gwilym Roberts
(DM/1900/1/11)



Eu merch, Margaret Mary, neu May fel yr oedd yn cael ei galw, oedd yr un a unodd y ddau deulu pan briododd â Howell Davies yn Eglwys Sant Mark, Cei Connah ar 6 Rhagfyr 1919.

**Merch ifanc ddiennw - [May Roberts?]
oddeutu 1920.
D/DM/1900/1/20**

Ar ôl priodi bu'r ddau yn byw yng Ngheir Connah ac mae Cofrestr 1939 yn dangos eu bod yn byw yn 3 Stryd Golftyn. Cawsant 3 o blant: Frederick (a anwyd yn 1920); Robert (a anwyd yn 1921); a John (a anwyd yn 1924).

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd y teulu yn dal i fyw yng Ngheir Connah, fel y mae eu llyfrau dogni yn ei ddangos (DM/1900/2/6-7).

Gwasanaethodd eu mab ieuengaf John yn y Rhyfel, ac mae llun yn y casgliad yn dangos ei fod wedi mynd i Rufain yn 1944, o bosibl yn ystod y Rhyddhau (DM/1900/3/2).

**Ar y cefn:
'John, Rome, 1944'
D/DM/1900/3/2**



O'r casgliad bach hwn o gofnodion, cawn gyfoeth o wybodaeth a gydag ychydig o waith ymchwil ychwanegol yn defnyddio ffynonellau ar-lein megis Find My Past ac Ancestry, mae'n bosibl olrhain hyd yn oed mwy o fanylion am eu bywydau, eu hoffterau, eu gwaith, eu hobiau a'u materion teuluol, o'r cyfnod Fictoraidd hyd at ddiwedd yr 20fed ganrif.


**Ydych chi wedi ystyried rhoi cofnodion eich teulu chi i Archifau Gogledd-ddwyrain Cymru?
#AEAEichArchif**

Roedd Howell yn hanu o Fangor Is-y-Coed ac roedd wedi gwasanaethu yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'n rhaid bod y pâr wedi bod yn canlyn am gryn amser cyn priodi, gan fod cerdyn wedi'i frodio gyda'r geiriau 'Greetings from the Trenches' yn y casgliad wedi'i anfon at May a'r cyfarchiad 'With fondest love from Howell', oddeutu 1918. Clw sy'n awgrymu ei fod wedi gwasanaethu yn y fyddin yw'r pamffledyn gan Gatradd (Lerpwl) y Brenin, sy'n rhan o'r casgliad.



'Greetings from [the] Trenches', D/DM/1900/1/16

Eitemau amrywiol eraill sy'n ddiddorol yw'r pamffledyn i gofio Jiwbil Drefol Wrecsam, 1857 - 1907, sy'n cynnwys lluniau a darluniau o hen adeiladau a thafarndai, rhai ohonynt bellach wedi diflannu (DM/1900/4/1); hen dun tabledi 'iron pills' yn cynnwys stampiau, cwponau a thocyn trê'n o Wrecsam i Wersyllt, oddeutu 1910? (D/DM/1900/5/1); a rhai papurau arian Almaenaid, a ddaeth o bosibl yn ôl gyda John Roberts o'r rhyfel.



Mae'r papurau bellach ar gael i'w gweld yn AGDdC, Penarlâg (D/DM/1900). Ewch i'n gwefan i weld y catalog a threfnwch i ymweld â'r ystafell ymchwil: www.agddc.cymru

Myfyriwr rhwymo llyfrau yn dysgu sgiliau traddodiadol gwerthfawr yn AGDdC, Penarlâg

Yn gynharach eleni, dechreuais hanner cyntaf y cwrs 8 wythnos ar rwymo llyfrau a chadwraeth gyda Mark Allen, Cadwraethwr yn Archifau Gogledd-ddwyrain Cymru (AGDdC). Mae'r modiwl yn rhan o Dystysgrif y Gymdeithas Archifau a Chofnodion mewn Cadwraeth Archifau. Mae modiwlau eraill fel seliau cwyr, memrwn, papur a mapiau a chynlluniau yn rhan o'r cwrs hwn hefyd. Mae gofyn i bob hyfforddai cadwraeth sefyll arholiad ar ddiwedd pob lleoliad, sy'n mynd â nhw i bob rhan o'r DU. Ar ôl bod yn gweithio gydag eitemau papur gwastad yn unig, roeddwn wrth fy modd yn cael dysgu'r sgiliau treftadaeth technegol sy'n ofynnol er mwyn gwneud llyfr, yn ogystal â dysgu am hanes diddorol rhwymo llyfrau.

Ar ddechrau'r cwrs roeddwn yn creu strwythurau llyfr syml fel pamffledi un rhan a rhwymadau cas, ond cyn bo hir roeddwn yn cael profiad ymarferol o wneud gwaith rhwymo mwy cymhleth yn arddull llyfrgell ac arddull hyblyg. Fe wnes i fwynhau yn arbennig defnyddio offer a deunyddiau sydd wedi bod yn cael eu defnyddio gan rwymwyr ers cannoedd o flynyddoedd, er enghraifft ffrâm wnïo, ac ymarfer nifer o wahanol strwythurau gwnïo. Yr her fwyaf i mi oedd dod i arfer â'r dechneg a'r sgiliau dehurwydd llaw sy'n ofynnol i grafu lledr. Ers gwneud hynny, rwy'n gwerthfawrogi llyfrau hanesyddol yn fwy a'r sgiliau lefel uchel sy'n ofynnol i'w creu nhw.



Sylvia yn defnyddio ffrâm wnïo yn y Stiwdio Gadwraeth ym Mhenarlâg, i greu rhwymiad arddull llyfrgell.

Yng nghyfnod olaf fy lleoliad pedair wythnos, symudais at gadwraeth llyfrau gan ymchwilio'n fanwl athroniaeth a moesau unrhyw driniaethau adferol yn gyntaf. Gwnaethpwyd gwaith atgyweirio a mewnlenni blociau testun yn y fan a'r lle yn ogystal â thechnegau sefydlogi syml megis atgyfnerthu lledr brau gyda Klucel G.

Ers treulio cyfnod byr yn AGDdC, rwyf bellach yn gallu adnabod gwahanol arddulliau rhwymo a disgrifio'n gywir sut y cawsant eu gwneud a beth yw eu cyflwr. Rwy'n teimlo'n llawer mwy hyderus wrth weithio gyda llyfrau ac mae treulio amser yn AGDdC gyda Mark wedi rhoi brwdfrydedd i mi barhau i warchod llyfrau. Rwy'n edrych ymlaen at ddychwelyd i Benarlâg y flwyddyn nesaf i gwblhau'r modiwl.


Sylvia Roberts, Cadwraethwr Prosiect, Amgylchedd Hanesyddol yr Alban

Digwyddiad Drysau Agored Cadwraeth yn Rhuthun



Uchod: Cynt, ac ar y Dde: Ar ôl cadwraeth

Ar gyfer 'Drysau Agored' yn Rhuthun, fe wnaethom gynnal diwrnod agored ar thema cadwraeth i ddangos rhai o'r dogfennau sydd wedi'u hatgyweirio a'u hail-becynnu yn ddiweddar. Roedd y dogfennau a ddangosir yn cynnwys cofrestrau Sesiynau Chwarter, cofrestr derbyn a rhyddhau o'r wyrwys, llyfr disgrifiadau troseddol ac albwm rhyfel y degwm.



Roedd cyfle hefyd i siarad gyda'r cadwraethwr, Mark Allen, a oedd wrth law gydag arddangosiadau ac enghreifftiau o dechnegau atgyweirio. Roedd yn ddigwyddiad poblogaidd gyda dros 150 o bobl yn ymweld â ni ar y dydd.

Cynhelir y diwrnod agored nesaf yn Rhuthun ddydd Sadwrn 26 Tachwedd 2022 gyda'n harddangosfa Darganfod y 'Dolig' ar yr un diwrnod â'r farchnad artisan leol yn y carchar. Cadwch lygad am fwy o fanylion am hyn ar ein cyfryngau cymdeithasol.

Cyfreithwyr Richards, Eitemau Newydd eu Catalogio ar gael yn Rhuthun

Yn ddiweddar rydym wedi lansio rhyddhad nesaf catalog Papurau Cyfreithwyr Richards sydd ar gael nawr i'w gweld yng nghanen Rhuthun. Gellir chwilio am y casgliad ar ein catalog ar-lein gan ddefnyddio cyfeirnod DD/R.

Ym mis Ebrill 2020, lansiwyd y rhyddhad dechreuol ar-lein gydag oddeutu 2700 o eitemau ar gael i'r cyhoedd am y tro cyntaf. Gyda chefnogaeth ymroddedig gwirfoddolwyr, rydym yn falch o gyhoeddi bod yr ail ryddhad bellach yn fyw ac mae cofnodion catalog ar gyfer 5000 o eitemau ar gael i'w harchwilio ar-lein. Papurau Richards fydd casgliad preifat mwyaf Rhuthun ac amcangyfrifir y bydd oddeutu 9000 o gofnodion catalog i gyd.

Byddwn yn eu rhyddhau fesul rhan wrth iddyn nhw gael eu cwblhau. Agorodd Cyfreithwyr Richards yn 1848 yn Llangollen ac mae'r casgliad yn cynnwys gweithredoedd a chofnodion eiddo, papurau achosion cyfreithiol, ewyllysiau a chofnodion ystadau. Mae'r rhyddhad diweddaraf yn cynnwys papurau cleientiaid allweddol, gan gynnwys Ystad Dickin a JC Edwards.

Edrychwch ar y catalog hwn ar ein gwefan: https://www.agddc.cymru/collections/getrecord/GB209_DD-R

COURTAULDS

Digwyddiad Drysau Agored ym Mhenarlâg

Cynhaliwyd diwrnod agored llwyddiannus yn AGDdC ym mis Medi 2022. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar Courtaulds, y cwmni a oedd yn berchen ar dri safle ffatri yn y Fflint sef: Aber Works, Deeside Mills a Castle Works, a dau gyfleuster cynhyrchu reion ym Maes Glas. Yn ei anterth, roedd cwmni Courtauld yn cyflogi dros 10,000 o bobl yn Sir y Fflint, gan greu effaith enfawr ar yr ardal a ffurfio ei gymuned ei hun. Roedd rhai cyn-weithwyr yn bresennol yn y Diwrnod Agored ac roeddent yn falch o weld y wynebaw cyfarwydd a'r lleoedd adnabyddus a oedd yn gynwysedig yn y sgysiau a'r arddangosfeydd.

Dechreuodd y Cynghorydd Vicky Perfect weithio yn Courtaulds pan oedd yn 15 oed, a bu'n rhannu ei phrofiadau o weithio yno yn y 1960au, a arweiniodd at drafodaeth ddifyr a hel atgofion gyda'r gynulleidfa. Dywedodd un o'r mynychwyr mai'r sioe sleidiau a'r sgws gan Vicky oedd eu hoff ran o'r diwrnod agored, a dywedodd un arall yn ingol bod y sgysiau wedi dod ag atgofion yn ôl o anwyliad a oedd wedi hen fynd.



Yn ogystal â'r arddangosfa a'r arteffactau a oedd yn cael eu harddangos gan Amgueddfa Sir y Fflint (AURA), cafwyd sgws gan Sophie Fish a Sarah Peveley o'r gwasanaeth amgueddfeydd hefyd. Buont yn siarad am hanes cyffredinol y safleoedd a'r prosiect partneriaeth rhwng AURA a Sefydliad Courtauld, Llundain. Cafodd hyn hefyd lawer o groeso gan y gynulleidfa a dywedodd un cwsmer: 'Diddorol iawn a llawn gwybodaeth. Clywais lawer o ffeithiau nad oeddwn wedi'u clywed o'r blaen.'



Cafwyd rhagflas sydyn o sioe gerdd newydd o'r enw 'Tic Toc' a ysgrifennwyd am grŵp o ffrindiau yn gweithio mewn ffatri yn seiliedig ar storïau ac atgofion. Bydd y sioe yn teithio o amgylch gogledd Cymru yn 2023.

Fel bob amser, roedd y teithiau y tu ôl i'r llenni yn yr Hen Reithordy hanesyddol yn boblogaidd, yn enwedig yr ymweliad â'r Stiwdio Gadwraeth, lle esboniodd y Cadwraethwr ei dechnegau ar gyfer gwarchod yr eitemau diddorol hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Pan ofynnwyd iddynt beth yr oeddent wedi'i fwynhau am y diwrnod, dywedodd un cwsmer: 'Waw. Popeth! Roedd y daith o amgylch yr ystafelloedd diogel a'r sgws gyda'r Cadwraethwr yn hynod ddiddorol. Byd arall.'



Gan fod cymaint o ddiddordeb wedi bod yn y digwyddiad, rydym am gynnal ail ddiwrnod agored Courtaulds ym mis Tachwedd. Cadwch lygad am fwy o fanylion ar ein cyfryngau cymdeithasol!



Croeso i'n Prentis Modern



Emma Williams ydw i ac rydw i'n Brentis Modern gyda chynllun Gweinyddu Busnes Cyngor Sir y Fflint. Rydw i'n astudio yng Ngholeg Llaneurgain ac yn treulio'r rhan fwyaf o fy wythnos yn yr Archifau. Ymunais â'r tîm yn AGDdC, Penarlâg ym mis Medi 2022, ar ôl astudio yn chweched dosbarth Glannau Dyfrdwy. Roeddwn eisiau gwneud y brentisiaeth oherwydd bod gennyf ddiddordeb mewn ennill cymwysterau newydd a dod i wybod mwy am yr adran Archifau. Roeddwn i hefyd eisiau cael profiad o sgiliau gweinyddu busnes ac ymdrin â'r cyhoedd wyneb yn wyneb yn ogystal â gweithio y tu ôl i'r llenni. Yn ystod fy nghyfnod yn AGDdC, byddaf yn gwneud gwaith gweinyddol, helpu cwsmeriaid yn yr ystafell ymchwil, bod wrth law i estyn dogfennau a chyflawni archebion copïo, dysgu sut i wneud bocsys ac ail-becynnu dogfennau hanesyddol. Hyd yma, wrth weithio yn AGDdC Penarlâg, rydw i wedi mwynhau dysgu am ochr weinyddol yr archifau ac rydw i'n edrych ymlaen at ddysgu mwy am yr ystafell ymchwil a chwrdd â chwsmeriaid.

Ffarwelio ag Ymchwilydd a Ffrind Gwerthfawr

Yn AGDdC, Penarlâg cawsom ein tristau o glywed am farwolaeth Hazel Formby yn 90 oed ar 15 Ebrill 2022. Roedd Hazel yn hen gyfaill i'r swyddfa gofnodion ac yn ymweld â'r ystafell ymchwil yn aml. Am sawl blwyddyn bu'n trefnu teithiau i Gymdeithas Hanesyddol Sir y Fflint ac fe wnaeth lawer iawn o waith ymchwil i'w hardal leol yn Ysgeifiog. Rydym wedi etifeddu llawer o'i phapurau a fydd yn sail werthfawr i waith ymchwil yn y dyfodol. Roedd yn ddynes hyfryd a byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr.



‘Sgiliau Treftadaeth ar Waith’

Hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o Gadwraethwyr

Yng Nghynhadledd y Gymdeithas Archifau a Chofnodion (ARA) a gynhaliwyd eleni yng Nghaer, cyflwynodd Mark Allen, cadwraethwr yn AGDdC, sgwrs ac arddangosiad o dan y teitl ‘Crafu a gosod label, sgiliau treftadaeth ar waith’.

Mae cadwraethwyr archifau yn cael eu cydnabod am fod yn ymarferwyr medrus iawn ac mae'n hanfodol eu bod yn gallu crafu neu deneuo lledr yn llwyddiannus er mwyn medru atgyweirio a gwarchod llyfrau sydd wedi'u rhwymo mewn lledr. Mae sgiliau treftadaeth yn goroesi trwy eu trosglwyddo yn ystod hyfforddiant. Gan ddechrau trwy baratoi darn llythrennau neu label, gall newydd-ddyfodiaid ddatblygu'r grefft mewn dim o dro. Roedd y sgwrs yn cynnwys hanes cryno am ddefnyddio labeli teitlau ar rwymiadau.

Gall adnabod y dulliau amrywiol a ddefnyddiwyd yn y gorffennol helpu i amcangyfrif oedran llyfr. Rhoddodd Mark hefyd arddangosiad ymarferol o sut i roi min ar gyllell grafu Saesneg a chrafu darn llythrennau wedi'i wneud o groen gafr.



Croesawu ein gwirfoddolwyr yn ôl... a chwilio am wirfoddolwyr newydd!




Bocsys amddiffynnol pwrpasol

Ym mis Ebrill 2022, ar ôl oedi hir a achoswyd gan gyfyngiadau Covid, roeddem yn falch iawn o allu croesawu criw bychan o wirfoddolwyr hirsefydlog yn ôl i AGDdC (Penarlâg). Cawsom gyfarfod i esbonio sut i aildechrau gwirfoddoli yn ddiogel ac i ddisgrifio'r dasg newydd gyffrous oedd wedi'i chynllunio ar eu cyfer. Mae'r prosiect yn rhan o raglen ail-becynnu ehangach sydd ar y gweill yn y ddau leoliad ar hyn o bryd. Mae hyfforddiant llawn bellach wedi cael ei ddarparu gan Mark Allen, ein Cadwraethwr, ac mae ein gwirfoddolwyr yn meistrolï'r grefft o greu bocsys amddiffynnol pwrpasol ar gyfer llyfrau o fewn y casgliad allan o gerdyn gradd cadwraeth di-asid. Gyda chymorth ein gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar sail rota, mae'r prosiect yn gwneud cynnydd da. Mae'n dasg sy'n mynnu sgiliau mesur a thorri trachywir.

Yn AGDdC (Penarlâg) rydym hefyd yn y broses o recriwtio nifer fechan o wirfoddolwyr o bell ar hyn o bryd i weithio gyda ni i gatalogio casgliad o lyfrau llythyrau (copïau o lythyrau a anfonwyd allan) sy'n rhan o gasgliad Undeb Cyfraith y Tlodion Treffynnon.

Mae'r llythyrau yn cynnwys y trafodaethau, yr anghytuno a'r ffraeo ynglŷn â phwy ddylai dderbyn rhyddhad, pa fath, pwy fyddai'n talu amdano, am faint a chwestiynau pellach am sut ddylai'r system weithio ar ôl i Gyfraith y Tlodion newydd gael ei chyflwyno yn 1834.

Bwriad y prosiect cydweithredol cyffrous hwn yw creu detholiad o'r cofnodion hyn i fod ar gael i'w harchwilio ar-lein. Rydym yn cymryd rhan yn y prosiect hwn ynghyd â nifer fechan o archifau eraill ledled y DU, Yr Archifau Gwladol a Phrifysgol Trent Nottingham.



Sgwner ar y Dyfrdwy, oddeutu 1900

PH/15/256


Ers ymuno ag AGDdC ychydig fisoedd yn ôl, y prif brosiect yr wyf wedi bod yn gweithio arno yw digideiddio cofnodion llongau o 1863 ymlaen, yn enwedig hanesion mordeithiau, rhestrau criwiau, cytundebau, a llyfrau llongau ar gyfer masnach gartref a llongau a oedd yn mynd dramor gan hwyllo o borthladdoedd Prydeinig a Gwyddelig. Ar ôl eu sganio, rwy'n llwytho'r lluniau ar ein gwefan fel bod modd i'n cwsmeriaid eu gweld ar-lein. Mae'r cofnodion hyn, yn enwedig y rhestrau criwiau, yn darparu gwybodaeth eang am forwyr y cyfnod hwn, gan gynnwys eu henwau llawn, eu hoedrannau ar adeg y fordaith, a'u man geni - sydd i gyd yn eithriadol o ddefnyddiol i achyddion ac ymchwilyddyr eraill. Fodd bynnag, mae'r cofnodion hyn yn darparu llawer mwy na dim ond rhestrau o enwau a mordeithiau - mae llawer ohonynt yn darparu straeon diddorol am fywydau morwyr teithiol yn y cyfnod Fictoraidd.

Un o'r pethau cyntaf a sylwais oedd yr amrywiaeth a'r creadigrwydd wrth enwi llongau - er bod gan lawer ohonynt nhw enwau masnachol mwy cyffredinol, roedd rhai ag enwau fel 'Kitten', 'Excelsior', a 'Fanny Truss'. Hefyd, er bod nifer o'r llongau yn teithio o fewn y DU ac Iwerddon yn gyffredinol, roedd nifer ohonynt yn mynd ar deithiau pell ar draws moroedd a chefnforoedd, e.e. llongau yn teithio i mewn ac allan o: Y Tir Newydd, Canada; Efrog Newydd, Yr Unol Daleithiau; Denmarc; Periw; Portiwgal; a Venezuela.

Gan Tegwen Lewis, Cynorthwy-ydd Digideiddio

O dan yr haenau o gofnodion biwrocraidd, gallwch ddod ar draws cipluniau o straeon diddorol sy'n rhoi syniad i chi o fywydau'r dynion yma. Roedd ambell i gofnod yn y llyfrau llongau o griwmyn "dan ddylanwad diod feddwol" a hyd yn oed yn taro cyd aelodau o'u criw (SR/1870/143). Yn 1869, roedd Harry de Beer, o Ostend, Gwlad Belg yn forwr ar gwch y 'Caboceer'. Ar ôl cyrraedd talaith Rio Grande Do Sul ym Mrasil, aeth Mr de Beer i'r lan a bu'n absennol am 24 awr cyn dychwelyd ar fwrdd y llong yn nes ymlaen gan ddatgan ei fod wedi cael ei garcharu.

Dros y dyddiau nesaf, mae'r llyfr llong yn nodi ei fod wedi ymddangos yn feddw bob dydd, yn ymddwyn yn ddigywilydd gyda'r is-gapten, ac yn bygwth y Capten gydag iaith ymosodol (SR/1870/167e). Mae hefyd yn datgan fod Mr de Beer wedi gofyn am nodyn i ymweld ag ysbyty ar y lan (er nad oedd yn dangos unrhyw arwyddion o fod angen mynd i ysbyty), ac ar ôl hynny ni ddychwelodd ar fwrdd y llong. Ar ôl chwilio amdano, ni welodd y criw unrhyw arwydd ohono ac felly cymerwyd ei fod wedi cael ei adael ar ôl! (SR/1870/167n).



Am fwy o hanesion diddorol am y moroedd mawr, cadwch lygad am neges blog newydd a fydd yn mynd i fwy o fanylder am y cofnodion llongau hyn a'r peryglon a'r anturiaethau yr oedd nifer o forwyr Fictoraidd yn eu hwynebu ar eu siwrneiau!

Beth sydd yn y Bocs?

Rydym yn cynllunio cyfres o fideos am 'Beth sydd yn y Bocs' yn AGDdC, i ddatgelu rhai o'r trysorau cudd a gadwir yn ein harchifau.


Yn ein rhifyn cyntaf o 'Beth sydd yn y Bocs?' cawsom hyd i stori gariad gudd yng nghanol ffolderi di-asid a phapur sidan!

Ar yr olwg gyntaf, roedd hwn yn edrych fel bocs archifau cyffredin, gyda ffolder archifol di-asid i warchod dogfennau bregus. O danodd, roedd papur sidan di-asid wedi'i ddefnyddio i lapio bwndel bach diddorol. Wrth ei archwilio yn fanylach gwelwyd rhywbeth arbennig ac annisgwyl iawn!

Cynhaliwyd priodas Miss Jennie Edwards a Mr W.E. Morris yng Nghapel y Methodistiaid Calfinaidd ar Stryd Clwyd, Y Rhyl, ar 28 Chwefror 1911. Disgrifiwyd y briodferch yn y papur newydd fel 'charmingly attired in a grey silk taffeta robe, trimmed with velvet and silk lace.' Roedd yn gwisgo het lwyd wedi'i haddurno â thiwl a phluen gwaywr ac roedd yn cario tusw o diwlipau pinc a lili'r dyffrynnoedd. Roedd y gwahoddedigion priodas yn cynnwys rhai perthnasod o'r Unol Daleithiau a chafwyd y brecwast priodas ym Mwyty Clwydian.



Cardiau Ffolant o'r 19eg ganrif wedi'u gwneud o flodau sidan a les (D/DM/791/7)



Yn y bocs roeddem yn ffodus iawn i ddod o hyd i gardiau Sant Ffolant wedi'u gwneud â llaw gyda blodau sidan a les, a gwahoddiad i briodas Miss Jennie Edwards a Mr W.E. Morris yn y Rhyl, yn 1911. Roedd darn wedi'i dorri allan o bapur newydd hefyd gyda mwy o fanylion am ddiwrnod y briodas!

Yn y papur sidan roedd rhywbeth annisgwyl arall yn cuddio ac roeddem wrth ein boddau pan wnaethom ei agor. Ydych chi'n gallu dyfalu beth oedd yn cuddio yn y Bocs? Gwyliwch ein fideo ar YouTube i ddarganfod mwy!

Gobeithiwn fod Mr a Mrs Morris wedi cael bywyd hapus iawn ac mae'r atgof ohonynt yn cael ei warchod yn ofalus yn yr Archifau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Gallwch wyllo'r fideo 'Beth Sydd yn y Bocs' ar ein sianel You Tube...
<https://youtu.be/Moz4SyoshAM>

DILYNWCH NI AR EIN CYFRYNGAU CYMDEITHASOL:



Facebook: Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru



Twitter: @ArchifauGDCymru



Instagram: ArchifauGogleddDdwyrainCymru



Golygydd: Liz Newman, Archifydd, AGDdC (Penarlâg)